Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 421

**Amseru: Unigol**

**Teitl: DPP2512 Cymorth Troseddwr Cam-drin Domestig Perygl Uwch**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn dilyn y cyhoeddiad am y buddsoddiad o £53 miliwn i gyflwyno'r Prosiect DRIVE ar draws Cymru a Lloegr dros y pedair blynedd nesaf, mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu rhoi arian ar gyfer byddino a chyflenwi'r Prosiect DRIVE ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2025-2026 a 2026-27.

Ymateb i gam-drin domestig sy'n anelu i leihau nifer y dioddefwyr cam-drin domestig, yn blant ac yn oedolion, drwy aflonyddu ar, a newid, ymddygiad y troseddwyr yw'r Prosiect DRIVE. Mae'r Prosiect DRIVE yn canolbwyntio ar droseddwyr perygl uwch neu fynych, gwrywaidd a benywaidd, sy'n 16 oed neu hŷn.

**Argymhelliad:**

Rhoi'r cytundeb ar gyfer darpariaeth Cymorth Troseddwyr Cam-drin Domestig Perygl Uwch (Rhaglen DRIVE) i Wasanaeth Cam-drin Domestig Threshold am gyfnod o flwyddyn, gydag un (1) cyfnod estyn blynyddol yn amodol ar gyllid y cytunwyd arno.

Y cyfanswm cost ar gyfer y ddarpariaeth am y cyfnod blwyddyn cyntaf yw £282,411.24.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 21/10/2025**